Cynllun Datblygu Lleol Newydd 2018-2033

Papur Cefndir

# PC42: Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg

**Cynllun i'w archwilio**

**gan y cyhoedd**

**Rhagfyr 2025**

**This document is also available in English.**

Mae'r ddogfen hon ar gael i'w gweld a'i lawrlwytho ar wefan y Cyngor yn: www.conwy.gov.uk/cdlln Mae copïau hefyd ar gael i'w gweld yn y prif lyfrgelloedd a swyddfeydd y Cyngor a gellir eu cael gan y Gwasanaeth Polisi Cynllunio Strategol, Coed Pella, Ffordd Conwy, Bae Colwyn LL29 7AZ neu drwy ffonio (01492) 575461. Os hoffech chi gael gair â swyddog cynllunio sy'n gweithio ar y Cynllun Datblygu Lleol ynglŷn ag unrhyw agwedd ar y ddogfen hon, cysylltwch â'r Gwasanaeth Polisi Cynllunio Strategol ar (01492) 575181 / 575445/ 575124 / 574232.

**Gellir darparu'r ddogfen hon ar Gryno Ddisg, yn electronig neu mewn print bras a gellir ei chyfieithu i ieithoedd eraill. Cysylltwch â'r Gwasanaeth Polisi Cynllunio ar (01492) 575461.**

CONWY
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
COUNTY BOROUGH COUNCIL

**Sir Conwy, yr amgylchedd iawn i fyw, gweithio a darganfod**

**Conwy County, the right environment to live, work and discover**

# Cynnwys


1. Cyflwyniad ..... 4
2. Asesiad o’r Effaith ar y Gymraeg ..... 4
3. Asesiadau polisi unigol ..... 21
4. Mesurau lliniaru arfaethedig ar y safle ..... 26

# 1. Cyflwyniad

1.1 Mae Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol (2004), fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Cynllunio Cymru (2015), yn ei gwneud yn ofynnol i'r Asesiad Cynaliadwyedd gynnwys: “asesiad o effeithiau tebygol y cynllun ar y defnydd o'r iaith Gymraeg yn ardal y cynllun. Diben hyn yw sicrhau bod graddfa a lleoliad y newid a nodir yn y cynllun yn cefnogi'r iaith Gymraeg a sicrhau bod mesurau lliniaru priodol ar waith, os oes angen.”

1.2 Mae'r papur hwn yn ymdrin â chanlyniadau asesiad lefel uchel o'r effaith ar yr iaith Gymraeg. Mae’n gweithredu’r dull a fabwysiadwyd gan awdurdodau cynllunio lleol i asesu'r effaith ar yr iaith Gymraeg (adran 2) ac asesiad manwl o bob polisi sydd wedi’i gynnwys yn y Cynllun Datblygu Lleol Newydd (CDLIN). Fe baratowyd hyn ochr yn ochr â’r Arfarniad o Gynaliadwyedd y CDLIN.

1.3 Am adolygiad pellach o ofynion polisi cenedlaethol a chynlluniau a strategaethau perthnasol Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy o ran yr iaith Gymraeg, gweler Papur Cefndir 42.

# 2. Asesiad o’r Effaith ar y Gymraeg

2.1 Mae'r Cyngor wedi asesu effaith strategaeth a pholisïau'r Cynllun Datblygu Lleol Newydd ar yr iaith Gymraeg fel a ganlyn.

**1. A yw'r CDLIN yn debygol o arwain at gynnydd neu ostyngiad yn y boblogaeth a allai gael effaith gadarnhaol neu negyddol o ran y cydbwysedd rhwng siaradwyr Cymraeg / Saesneg?**

Mae strategaeth y Cynllun Datblygu Lleol Newydd yn seiliedig ar sefyllfa twf swyddi. Mae disgwyl i boblogaeth Bwrdeistref Sirol Conwy gynyddu o oddeutu 4,950 o bobl (4.2%) dros gyfnod y cynllun (2018-33). Mudo yw prif sbardun y newid hwn. Gweler Papur Cefndir 1 am ragor o fanylion. Mae’r CDLIN yn ceisio sicrhau y ceir effaith gadarnhaol ar y cydbwysedd rhwng siaradwyr Cymraeg a Saesneg drwy’r mesurau lliniaru a fframwaith y polisi creu lleoedd.

Yn yr 20 mlynedd ers 2004, mae poblogaeth Bwrdeistref Sirol Conwy wedi cynyddu 2,600, sef 2.3%. Nid yw poblogaeth Bwrdeistref Sirol Conwy'n adnewyddu'n naturiol gan fod mwy o farwolaethau na genedigaethau yn yr ardal fesul blwyddyn. Gyda marwolaethau dros gyfnod o ddeng mlynedd ar gyfartaledd yn 1,600 bob blwyddyn, a dim ond 1,000 o enedigaethau, byddai poblogaeth Bwrdeistref Sirol Conwy yn gostwng tua 600 person y flwyddyn, pe na bai mewnfudo net i'r ardal.

Mae strwythur oedran y Fwrdeistref Sirol yn sylweddol hŷn na Chymru a'r DU yn eu cyfanrwydd. Mae nifer y plant yn y boblogaeth wedi gostwng yn raddol dros y ddegawd ddiwethaf. Mae 57.8% o boblogaeth Bwrdeistref Sirol Conwy rhwng 16-65 oed, o gymharu â 62.4% yng Nghymru gyfan a 63.9% ar draws y DU. Mae hyn yn gymharol isel ac yn arwain at gymhareb dibyniaeth uchel – hynny yw, cymhareb y bobl o oedran gweithio i'r rhai sydd mewn egwyddor yn 'ddibynnol' ar y boblogaeth oedran gweithio.

Mae cadw pobl ifanc yn ein hardal yn broblem enfawr, gan fod rhagolygon poblogaeth ar gyfer Bwrdeistref Sirol Conwy yn dangos bwlch mawr yn y strwythur oedran rhwng 18 a 45 oed. Dyma'r grŵp oedran sy'n fwyaf tebygol o fod yn economaidd a chymdeithasol symudol, yn chwilio am waith, addysg a chyfleoedd cymdeithasol eraill y tu allan i'r ardal. Mae'n rhaid i nifer o bobl ifanc adael yr ardal ar gyfer addysg uwch, ac er nad yw hynny'n broblem, mae methiant i'w denu'n ôl i'r ardal ar ôl iddynt raddio yn arwain at anghydbwysedd rhwng cenedlaethau.

Mae strategaeth y CDLIN, yn seiliedig ar amcanestyniadau poblogaeth twf swyddi, yn allweddol i fynd i'r afael â'r dirywiad yn y boblogaeth a strwythur oedran anghytbwys y Fwrdeistref Sirol. Bydd denu ein pobl ifanc yn ôl i'r ardal yn cynnal yr iaith Gymraeg, yn ogystal â'r cyfleusterau a'r gwasanaethau sydd eu hangen er mwyn iddi fod yn iaith fyw a ffyniannus yn ein cymunedau.

Mae prif ragamcaniad poblogaeth Llywodraeth Cymru hefyd yn cynnwys elfen o newid o ran poblogaeth a mudo, ond ni fyddai'n mynd i'r afael ag anghydbwysedd y strwythur oedran yn yr ardal a allai fod yn niweidiol i'r Gymraeg.

**A allai arwain at ostyngiad mewn siaradwyr Cymraeg, ar ffurf niferoedd neu gyfran?**

Annhebygol. Nod strategaeth y CDLIN yw cadw a denu ein pobl ifanc yn ôl i'r ardal, yn ogystal â chadw siaradwyr Cymraeg yn lleol. Ceir rhagor o wybodaeth isod am fudo a’r effeithiau disgwyliedig.

**Sut y gallai’r cynnig effeithio ar ddefnydd y Gymraeg yn y gymuned?**

Rhagwelir effaith gadarnhaol. Mae cadw neu ddenu pobl ifanc leol yn ôl i'r ardal yn debygol o arwain at gadw neu ddenu siaradwyr Cymraeg i'r ardal hefyd. Mae polisïau Creu Lleoedd yn ei gwneud yn ofynnol i gynigion datblygu wneud cyfraniad cadarnhaol tuag at gryfhau hunaniaeth leol, cyflawni cymunedau cynaliadwy, annog ffordd fwy cynaliadwy o fyw, a hyrwyddo cydlyniant ac ymgysylltiad cymunedol. Mae polisi creu lleoedd penodol hefyd ar gyfer ardaloedd gwledig (PL/9), sy'n ei gwneud yn ofynnol i gynigion yn yr ardaloedd hyn daro cydbwysedd cynaliadwy rhwng diwallu anghenion economaidd, cymdeithasol, diwylliannol, amgylcheddol a hamdden cymunedau lleol ac ymwelwyr.

Mewn ardaloedd gwledig, gwelwyd gostyngiad yn y boblogaeth mewn rhai cymunedau dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf (gweler Papur Cefndir 69 am ragor o fanylion). Nod polisïau yn y CDLIN yw cefnogi cymunedau gwledig mewn modd cynaliadwy ac atal colli siaradwyr Cymraeg a phoblogaeth leol. Mae polisïau'r CDLIN yn ceisio diogelu cyfleusterau cymunedol mewn ardaloedd gwledig. Mae'r rhain yn darparu cyfleoedd allweddol i'r iaith gael ei defnyddio a'i chlywed mewn cymunedau.

**2. A yw'r CDLIN yn debygol o arwain at gynnydd mewn mewnfudo neu allfudo?**

**Sut fydd hyn yn effeithio ar nifer y siaradwyr Cymraeg?**

Mae lefelau mudo yn amrywio o flwyddyn i flwyddyn, yn anodd eu mesur ac yn anodd eu rhagweld. Dros y 10 mlynedd diwethaf, mae mudo net blynyddol cyfartalog wedi bod tua 700 o bobl i Fwrdeistref Sirol Conwy bob blwyddyn.


Fodd bynnag, mae mudo yn elfen anwadal o newid poblogaeth ac mae wedi amrywio rhwng ffigur net o -50 a +1,550 o bobl dros y 25 mlynedd diwethaf.

Er mwyn llyfnhau rhywfaint o'r amrywiad hwn, wrth edrych ar strwythur oedran mudwyr i ddarparu tystiolaeth ar gyfer papur cefndir 1 rydym wedi defnyddio cyfartaledd 10 mlynedd.

Mae'r rhan fwyaf o grwpiau oedran yn gweld cynnydd net yn y boblogaeth oherwydd mwy o fewnfudo nag allfudo. Fodd bynnag, mae cynnydd mawr mewn allfudo yn y grwpiau oedran 15-29. Nid oes sefydliad addysg uwch ym Mwrdeistref Sirol Conwy, felly mae'n rhaid i'r rhan fwyaf o bobl sydd eisiau mynd ymlaen i brifysgol neu addysg uwch arall yn 18 oed adael yr ardal. Yn ogystal, dyma'r grŵp oedran sy'n fwyaf tebygol o fod yn economaidd a chymdeithasol symudol, yn chwilio am waith a chyfleoedd cymdeithasol eraill y tu allan i'r ardal. Mae'r grŵp oedran hwn wedi dod yn fwy symudol dros y blynyddoedd, felly mae maint ac effaith eu hallfudiad wedi cynyddu. Fel cyfartaledd dros 10 mlynedd, mae'r grwpiau oedran hyn yn cyfrif am 40% o allfudwyr.

Mae'r ffigur isod yn dangos proffil oedran cyfartalog mudwyr sy'n symud i mewn ac allan o'r Fwrdeistref Sirol.

**Ffigur 1: siart yn dangos proffil oedran cyfartalog mudwyr ym Mwrdeistref Sirol Conwy, 2014/15 i 2023/24**




Ffynhonnell: Data llif mudo mewnol a rhyngwladol, y Swyddfa Ystadegau Gwladol

Mae'r cynnydd sydyn ym mhroffil oedran mewnfudwyr yn y grŵp oedran 20-24 oed yn awgrymu bod rhai o'r bobl ifanc hyn yn dychwelyd i'r ardal ar ôl iddynt orffen addysg uwch. Fodd bynnag, nid yw pob un o'r rhai sy'n gadael yn eu harddegau hwyr neu eu hugeiniau yn dychwelyd i'r ardal.

Mae allfudiad net oedolion ifanc yn cael effaith ganlyniadol ar yr holl strwythur poblogaeth. Yn ogystal â bod yn sail i boblogaeth oedran gweithio sy’n gyrru ein heconomi, maent yn bobl a fydd yn dod yn rieni hefyd. Mae llai o fabanod yn cael eu geni oherwydd mae cohort rhieniol 'absennol' yn golygu bod llai o oedolion ifanc yn y genhedlaeth nesaf, sy'n dod yn effaith gyfansawdd ar yr anghydbwysedd oedran yn y boblogaeth.

Gall y strwythur poblogaeth a'r patrwm mudo hwn gael effeithiau negyddol ar yr iaith Gymraeg. Ymddengys bod strategaeth y Cynllun Datblygu Lleol Newydd yn lleihau lefel yr allfudo, yn enwedig pobl ifanc oedran gweithio trwy ddarparu tai, swyddi a gweithgareddau eraill priodol. Os yw'n llwyddiannus, dylai hyn arwain at gadw aelwydydd sy'n siarad Cymraeg yn lleol.

Mae strategaeth y CDLIN yn cynllunio ar gyfer 4,300 o gartrefi newydd ar draws cyfnod y cynllun. Mae'r berthynas rhwng adeiladu tai a mudo a'r sgil effaith (os o gwbl) ar y Gymraeg yn aneglur. Gwelwyd gostyngiad yng nghyfran y bobl sy’n gallu siarad Cymraeg ym Mwrdeistref Sirol Conwy o 19% i 17.8% rhwng 2011 a 2021 (data'r Cyfrifiad). Roedd hyn yn ostyngiad o 1,600 o bobl. Gwelwyd gostyngiad yng nghyfanswm y boblogaeth yn ystod y cyfnod hwn o 115,228 yn 2011 i 114,741 yn 2021; sy’n ostyngiad o bron i 500 o bobl. Roedd y gostyngiad yn nifer y bobl sy'n gallu siarad Cymraeg yn y Fwrdeistref Sirol yn sylweddol uwch na'r gostyngiad cyffredinol yn y boblogaeth.

Fe adeiladwyd 2,541 o anheddau newydd rhwng 2011 a 2021 yn ardal CDLIN Conwy. Darparodd y CDLI a oedd wedi’i fabwysiadu lawer llai o gartrefi newydd nag a ragwelwyd y byddai eu hangen yn ystod cyfnod y cynllun (2007-22). Gweler yr Adroddiadau Monitro Blynyddol a'r Adroddiad Adolygu am fwy o fanylion. Mae’n bwysig bod y CDLIN hwn yn darparu lefelau digonol o gartrefi newydd i gefnogi'r boblogaeth leol, gan gynnwys y sawl sy’n gallu siarad Cymraeg.

Wrth edrych ar y newidiadau ar draws ardal fechan, yr aneddiadau sydd â’r lefelau uchaf o dai wedi’u hadeiladu yw Abergele, Cyffordd Llandudno a Bae Colwyn. Gwelodd Cynghorau Tref a Chymuned Abergele, Conwy a Bae Colwyn gynnydd yn nifer y bobl sy'n gallu siarad Cymraeg rhwng 2011 a 2021. Fe welwyd gostyngiad yn Abergele a Chonwy yng nghyfran gyffredinol y bobl sy'n gallu siarad Cymraeg, ac fe welwyd cynnydd ym Mae Colwyn.

Cynhaliodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy arolygon rheolaidd ar gyfer preswylwyr anheddau a adeiladwyd o’r newydd rhwng 2011 a 2021. Fe gynhaliwyd yr arolwg diwethaf cyn pandemig Covid-19. Canfu fod 63.6% o’r sawl a ymatebodd wedi symud o rywle arall ym Mwrdeistref Sirol Conwy. Fe symudodd 16.5% arall o fannau eraill yng Ngogledd Cymru. O’r sawl a oedd wedi symud o’r tu allan i Gymru, roedd 24.3% ohonynt wedi byw ym Mwrdeistref Sirol Conwy yn flaenorol ac roedd 10.8% wedi byw yng Nghymru yn flaenorol. At ei gilydd, roedd 70.3% o’r sawl a ymatebodd wedi byw ym Mwrdeistref Sirol Conwy ar ryw adeg ac roedd 20.5% arall wedi byw yn rhywle arall yng Nghymru. Gweler Papur Cefndir 48 am fwy o fanylion.

Ychydig o gartrefi newydd gafodd eu hadeiladu yn ein cymunedau gwledig rhwng 2011 a 2021. Gwelodd rhai ostyngiad yn y boblogaeth dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf (gweler Papur Cefndir 69 am ragor o fanylion). Gwelodd mwyafrif y Cynghorau Tref a Chymuned ostyngiad yn nifer y bobl sy'n gallu siarad Cymraeg rhwng 2011 a 2021. Felly, mae angen lefel gynaliadwy o dwf o ran tai yn yr ardaloedd gwledig hyn, fel bod modd i siaradwyr Cymraeg lleol aros yn eu bro Gymraeg, neu ddychwelyd yno. Nod fframwaith tai a thai fforddiadwy'r CDLIN yw cefnogi hyn a sicrhau bod modd i'r Gymraeg ffynnu.

**A fyddai unrhyw newid yn un parhaol neu dros dro?**

Bydd y Cynllun Datblygu Lleol Newydd (ar ôl ei fabwysiadu) ar waith tan 2033. Gallai unrhyw newid yn nifer y siaradwyr Cymraeg lleol yn ystod amserlen y CDLIN (2018-33) fod yn un hirdymor ac ymestyn y tu hwnt i gyfnod y cynllun.

### 3. A yw'r CDLIN yn debygol o arwain at newid i strwythur oedran yr ardal gymunedol?

**A fyddai grwpiau oedran penodol yn gadael neu'n symud i'r ardal?**

Mae strategaeth y CDLIN yn seiliedig ar amcanestyniadau poblogaeth twf cyflogaeth (gweler Papur Cefndir 1). Ei nod yw cadw pobl ifanc leol a darparu swyddi a thai fel eu bod yn llai tebygol o symud i ffwrdd.

Mae allfudiad net oedolion ifanc yn cael effaith ganlyniadol ar yr holl strwythur poblogaeth. Yn ogystal â bod yn sail i'r boblogaeth oedran gweithio sy'n gyrru ein heconomi, maent yn bobl a fydd yn dod yn rieni hefyd. Mae llai o fabanod yn cael eu geni oherwydd mae cohort rhieniol 'absennol' yn golygu bod llai o oedolion ifanc yn y genhedlaeth nesaf, sy'n dod yn effaith gyfansawdd ar yr anghydbwysedd oedran yn y boblogaeth.

Yn ogystal â phroblemau o ran twf poblogaeth cymharol araf o gymharu â lefelau cenedlaethol, strwythur cyflogaeth hŷn na'r cyfartaledd a chymarebau dibyniaeth uchel, mae'r patrymau mudo presennol yn achosi problemau i ddyheadau'r ardal am boblogaeth fwy cytbwys, sy'n cadw pobl iau yn yr ardal,

yn cynnig cyfleoedd cyflogaeth i helpu i gyflawni hyn ac yn darparu tai addas a fforddiadwy ar gyfer ein poblogaeth bresennol a'n poblogaeth yn y dyfodol.

Mae cadw poblogaeth sy'n gytbwys o ran oedran yn darparu buddion ar gyfer y gymdeithas gyfan a'r Gymraeg yn lleol. Mae cyfnewid gwybodaeth a rennir, profiad a diwylliant rhwng cenedlaethau yn helpu i ffurfio cymuned gadarn, fywiog, arloesol ac integredig – mae symud gyda'r cyfnod a throsglwyddo doethineb yn hanfodol ar gyfer meithrin gwytnwch cymdeithasol. Mae cefnogaeth gymunedol a rolau gofalu hefyd yn cael eu meithrin drwy integreiddiad rhwng y cenedlaethau, nid yn unig o fewn teuluoedd, ond gyda chymdogion, cyfeillion a thrwy wirfoddoli. Gall hon fod yn broses ddwyffordd, gyda'r preswylwyr hŷn yn cynorthwyo gyda gofal plant a datblygiad a'r bobl iau yn darparu gofal ffurfiol ac anffurfiol ar gyfer preswylwyr hŷn.

**A allai rhwydweithiau cymdeithasol traddodiadol gael eu dinistrio?**

Annhebygol. Rhagwelir y bydd y CDLIN yn cryfhau rhwydweithiau cymdeithasol traddodiadol. Mae polisïau Creu Lleoedd yn ei gwneud yn ofynnol i gynigion datblygu wneud cyfraniad cadarnhaol tuag at gryfhau hunaniaeth leol, cyflawni cymunedau cynaliadwy, annog ffordd fwy cynaliadwy o fyw, a hyrwyddo cydlyniant ac ymgysylltiad cymunedol. Darperir safleoedd mwy sydd wedi'u neilltuo fesul cam yn ôl y taflwybr tai, fel bod modd gwneud newidiadau mwy graddol yn y gymuned leol. Bydd cynnydd yn y cyflenwad tai, gan gynnwys tai fforddiadwy, yn golygu bod modd i aelwydydd fforddio tai yn yr ardal ac nad ydynt yn cael eu gorfodi i chwilio am dai mewn ardaloedd eraill o fewn eu modd ariannol. Bydd mwy o swyddi yn lleol yn golygu na fydd angen i bobl o oedran gweithio adael eu hardal leol i chwilio am gyfleoedd cyflogaeth.

Mae'r polisïau'n arwain datblygiadau ar raddfa fawr i aneddiadau mwy, sy'n fwy cynaliadwy, yn ogystal â chefnogi lefel gynaliadwy o dwf yn achos rhai llai. Ceir polisi ar gyfer diogelu cyfleusterau cymunedol gwledig, sy'n rhan allweddol o rwydweithiau cymdeithasol mewn aneddiadau llai. Mae polisïau tai a chyflogaeth gwledig yn cefnogi lefel gynaliadwy o dwf i gefnogi cyflogaeth leol ac aelwydydd i fyw yn eu cymuned, neu ddychwelyd i'w cymuned leol. Bydd cefnogi'r cymunedau hyn i ddod yn fwy cynaliadwy ac atal

dirywiad poblogaeth yn gwella rhwydweithiau cymdeithasol traddodiadol, er mwyn sicrhau bod cymunedau gwledig yn rhai ffyniannus.

**4. A yw’r CDLIN yn debygol o effeithio ar ansawdd bywyd y bobl leol?**

**A allai'r cynnig effeithio ar iechyd ac amwynder y gymuned?**

Annhebygol. Mae Asesiad o’r Effaith ar Iechyd wedi’i gynnal ar y CDLIN (gweler Papur Cefndir 71). Ceir polisïau yn y CDLIN sy’n hyrwyddo effeithiau cadarnhaol ar iechyd a lles megis rheoli halogiad a llygredd, gan gynnwys dŵr, aer, sain, goleuadau a hyrwyddo goleuadau awyr dywyll addas. Mae yna bolisïau hefyd ar effeithlonrwydd ynni, trin tirwedd a thargedau plannu coed ar gyfer datblygiadau newydd. Mae polisïau creu lleoedd yn cynnwys creu lleoedd iach i annog ffyrdd o fyw egnïol a manteision iechyd eraill.

**A allai gynyddu'r risg o droseddau neu drais yn y gymuned?**

Annhebygol. Ni ragwelir cynnydd yn y risg o droseddau na thrais yn sgil y CDLIN. Mae'r polisïau creu lleoedd (PL/1 a PL/5) yn cynnwys meini prawf i leihau cyfleoedd i gyflawni neu gynyddu troseddau; atal troseddu ac anrhefn a hyrwyddo egwyddorion Diogelu drwy Ddylunio.

**5. A yw'r strategaeth yn debygol o gael effaith andwyol ar fusnesau a swyddi lleol?**

**A allai’r cynnig achosi i fusnesau lleol – Cymraeg eu hiaith – gau?**

Annhebygol. Mae strategaeth y Cynllun Datblygu Lleol Newydd yn seiliedig ar sefyllfa twf swyddi. Gweler Papur Cefndir 1 am fwy o fanylion. Un o amcanion y strategaeth yw darparu tir i fusnesau lleol cyfredol ehangu, fel nad oes angen iddynt adael Bwrdeistref Sirol Conwy. Gweler Papur Cefndir 18 Adolygiad Tir Cyflogaeth i gael rhagor o fanylion. Fe ddewiswyd y safleoedd cyflogaeth sydd wedi’u neilltuo er mwyn annog rhywfaint o fuddsoddiad mewnol, a allai mewn gwirionedd ategu a hybu’r economi leol, yn ogystal â galluogi’r busnesau presennol Cymraeg eu hiaith i dyfu i fod yn safleoedd mwy neu’n fwy addas a chynaliadwy, sy’n ateb y gofyn.

**A allai'r cynnig greu neu fod yn fygythiad i swyddi lleol?**

Bydd y strategaeth yn cael effaith gadarnhaol o ran creu swyddi lleol, ac mae 1,500 o swyddi ychwanegol wedi'u cynllunio hyd at 2033. Bydd y swyddi hyn mewn ystod o sectorau cyflogaeth, a byddant o fantais i amrywiaeth eang o breswylwyr lleol o oedran gweithio. Mae argymhellion wedi'u cynnwys o fewn y polisïau penodol ar gyfer y safleoedd cyflogaeth sydd wedi'u neilltuo, er mwyn sicrhau eu bod yn manteisio ar y gweithlu sy'n siarad Cymraeg.

Mae polisïau Twristiaeth yn diogelu'r llety twristiaeth yn Llandudno ac yn cefnogi darpariaeth cyfleusterau twristiaeth o ansawdd uchel ar draws ardal y cynllun.  Bydd hyn hefyd yn arwain at swyddi lleol ym maes twristiaeth, yn ogystal â sectorau ategol.

Mae polisïau'r CDLIN yn ceisio diogelu safleoedd cyflogaeth cyfredol, trwy gynnwys polisïau diogelu cyflogaeth. Mae'r polisi cyflogaeth gwledig hefyd yn ceisio cefnogi a hwyluso datblygiad yr economi wledig a ddylai gynnal a/ neu arwain at gynnydd mewn swyddi i siaradwyr Cymraeg. Mae polisïau hefyd yn ceisio diogelu cyfleusterau cymunedol lleol rhag cau, a fydd yn cadw cyfleoedd cyflogaeth lleol. Mae'r polisïau hyn yn helpu i ddiogelu swyddi lleol.

**6. A yw'r CDLIN yn debygol o arwain at fwy o amrywiaeth economaidd yn y gymuned (neu'r ardal ehangach)?**
**A allai'r cynnig arwain at fwy o fewnfudwyr di-Gymraeg yn sgil mwy o arallgyfeirio economaidd?**

Annhebygol. Gweler y cwestiynau uchod ynghylch mudo.

Mae'r CDLIN yn ymwneud â darparu a diogelu tir cyflogaeth ar gyfer categorïau defnydd eang e.e. swyddfa, diwydiannol, warysau ac ati. Yn ei dro, gallai hyn arwain at greu amrywiaeth o swyddi newydd yn yr ardal leol. Mae'r CDLIN yn cefnogi arallgyfeirio economaidd, yn enwedig o ran mentrau gwledig.

**7. A yw’r CDLIN yn debygol o gael effaith ar lefelau cyflogau lleol a/ neu brisiau tai?**

**A allai'r cynnig gynyddu/ gostwng lefelau cyflogau oherwydd mwy o gystadleuaeth?**

Annhebygol. Mae strategaeth y CDLIN yn cymhwyso sefyllfa amcanestyniadau poblogaeth twf swyddi. Mae tir yn cael ei neilltuo ac mae polisïau cyflogaeth yn annog twf ac arallgyfeirio o ran cyflogaeth er mwyn cyflawni’r strategaeth hon. Nid oes cysylltiad uniongyrchol rhwng cyflogau/ tâl a strategaeth y CDLIN, er mai’r nod yw darparu amgylchedd lle gall yr economi ffynnu, a ddylai yn ei dro arwain at fwy o gyfleoedd cyflogaeth ac o bosibl cyflogau/ tâl uwch. Mae twristiaeth yn rhan bwysig o’r economi leol. Nod polisïau'r CDLIN yw cadw’r llety gwyliau mewn rhannau allweddol o Landudno a cheisio darparu llety twristiaeth o ansawdd uchel ledled ardal y CDLIN. Y gobaith yw y bydd y polisïau hyn yn arwain at economi leol gadarn a bywiog, sy’n cynnig cyflogau da.

**A allai’r cynnig orfodi pobl leol – sy’n siarad Cymraeg – i adael y gymuned oherwydd prisiau tai, neu eu hatal rhag dychwelyd?**

Annhebygol. Ar hyn o bryd, mae ein ffigurau mudo yn dangos bod pobl iau yn fwy tebygol o adael yr ardal leol. Mae strategaeth y CDLIN yn ceisio darparu swyddi a thai priodol (y farchnad a thai fforddiadwy) fel bod modd iddynt barhau i fyw yn eu cymuned leol.

Mae digartrefedd, tai fforddiadwy a fforddiadwyedd tai yn faterion allweddol y mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn ceisio mynd i'r afael â nhw trwy amrywiol fesurau. Mae’r CDLIN yn un o’r rhain. Mae'n gosod targed uchelgeisiol ar gyfer darparu tai fforddiadwy ac yn ceisio manteisio i’r eithaf ar gyfleoedd i gynyddu’r ddarpariaeth drwy wahanol bolisïau a gweithio'n agos gyda landlordiaid cymdeithasol cofrestredig. Bydd cartrefi marchnad agored o ansawdd uchel hefyd yn cael eu hadeiladu yn unol â pholisïau’r CDLIN. Fe neilltuir safleoedd er mwyn darparu tai fforddiadwy a thai ar y farchnad agored. Mewn ardaloedd gwledig, mae polisïau'n cefnogi pobl leol i ddiwallu eu hanghenion tai drwy bolisi cysylltiad lleol, gan sicrhau mai fel man

preswylio parhaol C3 yn unig y caiff cartrefi newydd eu defnyddio, cefnogi trosi adeiladau gwledig a chefnogi anghenion mentrau gwledig.

Bydd y tai a'r swyddi cynlluniedig yn galluogi pobl leol i ddychwelyd i'r ardal. Gweler y cwestiynau ar fudo am ragor o wybodaeth.

**8. A yw'r CDLIN yn debygol o gael effaith ar ddarpariaeth gwasanaeth ac isadeiledd lleol?**

**A allai'r cynnig ddiogelu neu fod yn fygythiad i ysgolion lleol – cyfrwng Cymraeg – a/ neu gyfleusterau gofal iechyd?**

Mae'r amcanestyniad poblogaeth a ddewiswyd fel y dewis twf a ffefrir ar gyfer y CDLIN yn seiliedig ar dwf swyddi (gweler Papur Cefndir 1 am ragor o fanylion). Mae'r tabl isod yn dangos y newid a ragwelir mewn plant dros gyfnod y cynllun. Mae'n dangos gostyngiad yn nifer y disgyblion oedran cyn ysgol a chynradd a chynnydd yn nifer y disgyblion uwchradd a myfyrwyr addysg bellach. Os mai prif ragamcaniad LIC (y man cychwyn fel sy'n ofynnol gan y Llawlyfr Cynlluniau Datblygu) fydd y strategaeth twf a ddewiswyd, fe ragwelir y bydd y dirywiad o ran oedran cyn ysgol a chynradd yn uwch. Rhagwelir llai o gynnydd o ran oedran uwchradd ac addysg bellach.

**Ffigur 2: tabl yn dangos y newid a ragwelir yn nifer y disgyblion (amcanestyniad y CDLIN)**

| Oedran | Nifer a ragwelir ar ddiwedd cyfnod y cynllun | Y newid a ragwelir |
|---|---|---|
| **Oedran cyn ysgol (0-4 oed)** | 5,350 | -400 |
| **Oedran ysgol gynradd (5-10 oed)** | 7,350 | -850 |
| **Lleoedd ysgol uwchradd / addysg bellach (11-17 oed)** | 8,400 | 400 |

Ffynonellau: Rhagamcanion 2018, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy; Amcangyfrif poblogaeth canol blwyddyn 2018, ONS; Rhagamcanion aelwydydd 2018, Llywodraeth Cymru; Ffigyrau dwysedd swyddi, ONS.

Mae'n debygol y bydd y gostyngiad hwn yn nifer y disgyblion oedran cynradd yn amrywio o un ysgol i'r llall, gan y gallai lleoliad cartrefi newydd a/ neu ddewis rhieni olygu bod nifer y disgyblion yn cynyddu mewn rhai ysgolion.

Mae’r CDLIN wedi neilltuo tir ar gyfer ysgol gynradd newydd yn Llanfairfechan ac wedi diogelu tir ger Ysgol Sŵn y Don yn Hen Golwyn, er mwyn addasu i unrhyw dwf posibl yn yr ardaloedd hyn a chefnogi’r Cynllun Strategol y mae adran addysg CBSC yn ei ddatblygu. Yn achos ardaloedd eraill, os bydd angen ehangu ysgolion, mae’r CDLIN yn cynnwys polisi (CFS/4 cyfleusterau cymunedol newydd), sy'n cynnig arweiniad cadarnhaol o ran lleoliad ysgolion newydd, gan sicrhau eu bod nhw’n lleoliadau cynaliadwy a hygyrch, yn ogystal â chefnogi estyniadau i ysgolion presennol.

Mewn ardaloedd gwledig, gwelwyd gostyngiad yn y boblogaeth mewn rhai cymunedau dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf (gweler Papur Cefndir 69 am ragor o fanylion). Pe bai hyn yn parhau, gallai arwain at ostyngiad yn nifer y disgyblion mewn ysgolion gwledig. Nod polisïau yn y CDLIN yw cefnogi cymunedau gwledig mewn modd cynaliadwy ac atal colli poblogaeth leol, a all yn ei dro gefnogi cyfleusterau a gwasanaethau lleol, megis ysgolion lleol.

Mae polisïau tai yn cefnogi darparu tai fforddiadwy newydd lle mae angen wedi'i nodi. Mae polisi newydd ar gyfer tai at angen lleol wedi’i gyflwyno, sy'n cefnogi pobl gyda chysylltiad lleol i adeiladu cartrefi newydd yn y cymunedau gwledig llai. Bydd amod meddiannaeth yn berthnasol ar gyfer pob cartref newydd a adeiladwyd ar y farchnad agored yn y cymunedau gwledig llai er mwyn atal eu defnyddio fel ail gartref neu lety gwyliau tymor byr. Mae polisi wedi'i gynnwys ar gyfer defnyddio Cyfarwyddyd Erthygl 4 i reoli llety gwyliau tymor byr ac ail gartrefi yn y dyfodol. Mae'r polisi ar gyfer Anheddau Mentrau Gwledig yn adeiladu ar ganllawiau cynllunio cenedlaethol ac yn cefnogi eu cadw ar gyfer y gweithlu lleol yn yr hirdymor.

Mae polisi cyflogaeth wledig newydd wedi'i gyflwyno er mwyn hwyluso’r gwaith o ehangu ac arallgyfeirio busnesau yn yr ardal wledig a chymunedau gwledig llai. Mae hyn yn cydnabod yr angen i alluogi twf cynaliadwy busnesau gwledig cyfredol, gan amddiffyn yr amgylchedd naturiol ar yr un pryd.

I gloi, er y gostyngiad rhagamcanol yn nifer y disgyblion iau dros gyfnod y cynllun, rhagwelir llai o ostyngiad o gymharu â phrif ragamcaniad LIC. Felly, ystyrir bod dewis y sefyllfa twf cyflogaeth yn cael effaith fwy cadarnhaol ar gofrestrau disgyblion yn gyffredinol na defnyddio prif ragamcaniad LIC. Nod

polisïau arfaethedig y CDLIN yw cefnogi cymunedau gwledig cynaliadwy a bywiog, a allai arwain at boblogaeth leol fwy sefydlog a chadw disgyblion lleol mewn ysgolion gwledig.

Mae’r CDLIN yn cefnogi cynlluniau a strategaethau Addysg CBSC yn y dyfodol (gweler Papur Cefndir 45). Mae Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg CBSC yn ceisio cynyddu nifer y plant sy’n derbyn addysg cyfrwng Cymraeg 14% erbyn 2031. Os bydd gweithredu hyn yn golygu estyniadau i ysgolion presennol neu greu ysgolion newydd, mae’r CDLIN yn cynnwys polisi i gefnogi ac arwain y datblygiadau hyn.

Mae’r CDLIN yn cefnogi cynlluniau Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr i’r dyfodol ar gyfer darparu cyfleusterau gofal iechyd ar draws ardal y CDLIN (gweler Papur Cefndir 44 am ragor o fanylion). Mae’r newid yn y boblogaeth dros gyfnod y cynllun wedi cael ei ystyried, gan gynnwys twf y boblogaeth a newidiadau o ran demograffeg drwy strwythur y boblogaeth sy’n heneiddio a newidiadau posibl i anghenion y gwasanaeth iechyd. Mae’r CDLIN yn cynnwys polisi (CFS/4), sy'n cefnogi estyniadau i gyfleusterau gofal iechyd presennol a darparu cyfleusterau newydd mewn lleoliadau cynaliadwy.

Yn achos ardaloedd gwledig, mae’r polisïau tai yn cefnogi darparu tai fforddiadwy newydd lle mae angen wedi'i nodi. Mae polisi newydd ar gyfer tai at angen lleol wedi’i gyflwyno, sy'n cefnogi pobl gyda chysylltiad lleol i adeiladu cartrefi newydd yn y cymunedau gwledig llai. Bydd amod meddiannaeth yn berthnasol ar gyfer pob cartref newydd a adeiladwyd ar y farchnad agored yn y cymunedau gwledig llai er mwyn atal eu defnyddio fel ail gartref neu lety gwyliau tymor byr. Mae polisi wedi'i gynnwys ar gyfer defnyddio Cyfarwyddyd Erthygl 4 i reoli llety gwyliau tymor byr ac ail gartrefi yn y dyfodol. Mae'r polisi ar gyfer Anheddau Mentrau Gwledig yn adeiladu ar ganllawiau cynllunio cenedlaethol ac yn cefnogi eu cadw ar gyfer y gweithlu lleol yn yr hirdymor. Mae'r polisïau hyn yn cefnogi preswylwyr lleol i barhau i fyw yn eu cymunedau lleol, sydd â sgil-effeithiau cadarnhaol o ran y Gymraeg.

Mae polisi newydd y CDLIN ar gyfer cartrefi nyrsio erbyn hyn yn caniatáu iddynt fod mewn ardaloedd gwledig, sydd o fantais i breswylwyr gwledig sydd angen gofal ac yn dymuno parhau i fyw yn eu cymuned leol.

Gall siaradwyr Cymraeg oedran gweithio sy'n byw'n lleol fod yn rhan o weithlu'r GIG a gofal, fel bod modd i'r bwrdd iechyd sicrhau eu bod yn darparu'r 'cynnig gweithredol' gofal iechyd yn Gymraeg.

**A allai'r cynnig ddiogelu neu fod yn fygythiad i siopau / swyddfeydd post / banciau / tafarndai lleol mewn cymunedau Cymraeg eu hiaith, gan orfodi rhannau penodol o'r boblogaeth i symud allan o'r ardal?**

Annhebygol. Mae'r CDLIN yn cynnwys polisi i ddiogelu rhag colli cyfleusterau cymunedol gwledig. Os nad oes cyfleusterau tebyg ar gael yn y gymuned leol, mae'n rhaid i gyfleuster fod wedi cael ei farchnata am o leiaf 12 mis cyn y gellir rhoi caniatâd cynllunio ar gyfer newid defnydd.

Mae angen lefel briodol o boblogaeth leol ar gyfleusterau cymunedol mewn ardaloedd gwledig i'w cynnal a'u gwneud yn fusnesau hyfyw. Mewn ardaloedd gwledig, gwelwyd gostyngiad yn y boblogaeth mewn rhai cymunedau dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf (gweler Papur Cefndir 69 am ragor o fanylion). Pe bai hyn yn parhau, gallai arwain at gyfleusterau cymunedol yn methu â pharhau i weithredu. Nod polisïau yn y CDLIN yw cefnogi cymunedau gwledig mewn modd cynaliadwy ac atal colli poblogaeth leol, a all yn ei dro gefnogi cyfleusterau a gwasanaethau lleol.

Mae polisïau tai yn cefnogi darparu tai fforddiadwy newydd lle mae angen wedi'i nodi. Mae polisi newydd ar gyfer tai at angen lleol wedi'i gyflwyno, sy'n cefnogi pobl gyda chysylltiad lleol i adeiladu cartrefi newydd yn y cymunedau gwledig llai. Bydd amod meddiannaeth yn berthnasol ar gyfer pob cartref newydd a adeiladwyd ar y farchnad agored yn y cymunedau gwledig llai er mwyn atal eu defnyddio fel ail gartref neu lety gwyliau tymor byr. Mae polisi wedi'i gynnwys ar gyfer defnyddio Cyfarwyddyd Erthygl 4 i reoli llety gwyliau tymor byr ac ail gartrefi yn y dyfodol. Mae'r polisi ar gyfer Anheddau Mentrau Gwledig yn adeiladu ar ganllawiau cynllunio cenedlaethol ac yn cefnogi eu cadw ar gyfer y gweithlu lleol yn yr hirdymor.

Mae polisi cyflogaeth wledig newydd wedi'i gyflwyno er mwyn hwyluso'r gwaith o ehangu ac arallgyfeirio busnesau yn yr ardal wledig a chymunedau gwledig llai. Mae hyn yn cydnabod yr angen i alluogi twf cynaliadwy busnesau gwledig cyfredol, gan amddiffyn yr amgylchedd naturiol ar yr un pryd.

**9. A oes modd i'r CDLIN arwain at densiynau cymdeithasol, gwrthdaro neu ymraniadau difrifol o fewn y gymuned (Gymraeg ei hiaith?**

**A allai'r cynnig gael effaith anghyson sylweddol ar wahanol rannau o'r gymuned leol?**

Annhebygol. Cynhaliwyd Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb ar gyfer y CDLIN i'w archwilio ac ni nodwyd unrhyw faterion o ran gwahaniaethu na materion eraill, lle mae grwpiau â nodweddion gwarchodedig dan anfantais. Gweler Papur Cefndir 72 am fwy o fanylion.

**A allai sathru ar werthoedd traddodiadol rhannau penodol o'r gymuned?**

Annhebygol. Mae polisïau'r CDLIN yn ceisio cefnogi a gwella gwerthoedd traddodiadol yn y gymuned. Mae'r polisïau creu lleoedd yn ei gwneud yn ofynnol i gynigion gyfrannu'n gadarnhaol at hunaniaeth leol a hyrwyddo ymgysylltiad a chydlyniant cymunedol.

**10. A allai'r CDLIN arwain at newid mewn traddodiadau / diwylliannau – Cymreig – lleol?**

**A allai'r cynnig orfodi aelodau lleol o grwpiau gwirfoddol/ gweithgaredd/ ieuenctid lleol allan o'r ardal oherwydd diweithdra/ prisiau tai uchel?**

Annhebygol. Mae aelodau lleol o'r gymuned ar hyn o bryd yn symud i ffwrdd o ardal CDLIN Conwy. Er na fydd y CDLIN yn gwrthdroi'r duedd hon, mae'n ceisio ei lleihau trwy ddarparu tai, cyflogaeth a chyfleoedd eraill priodol i aelwydydd lleol barhau i fyw yn yr ardal. Mae'n ceisio cyflawni hyn trwy neilltuo tir i ddarparu cyfleoedd cyflogaeth newydd ac mae ganddo bolisïau i ddiogelu safleoedd presennol ac atal eu colli i ddefnyddiau eraill, a fydd yn darparu ac yn amddiffyn swyddi. Mae polisïau twristiaeth yn ceisio darparu cyfleusterau twristiaeth o ansawdd uchel, drwy gydol y flwyddyn, a fydd hefyd yn arwain at gyflogaeth.

Mae hefyd yn neilltuo tir ar gyfer tai ac mae ganddo bolisïau i wneud y mwyaf o ddarpariaeth tai fforddiadwy ledled holl ardal y cynllun. Rhagwelir y bydd y tangyflenwad o ddarpariaeth tai yn ystod y blynyddoedd diwethaf yn cael ei

ddatrys trwy fabwysiadu'r CDLIN a chynnwys dyraniadau safleoedd tai y gellir eu darparu. Mae'r CDLIN hefyd yn cynnig darparu lefel uchel o dai fforddiadwy.

Mae polisïau mewn grym i gefnogi aneddiadau gwledig llai trwy ddarparu cyfleoedd cyflogaeth lleol, amddiffyn cyfleusterau cymunedol a chefnogi lefelau cynaliadwy o dwf tai ar gyfer angen lleol. Yn ogystal, mae polisi tai angen lleol yn berthnasol i'r aneddiadau gwledig llai, lle gall aelwydydd â chysylltiad lleol adeiladu cartrefi newydd.

Mae'r effaith ar brisiau tai yn llai sicr, gan fod llawer o ffactorau allanol ac nid dim ond cyflenwad tai yn effeithio ar y farchnad dai.

Mae'r gofynion creu lleoedd a nodir yn y polisïau yn ceisio gwella cydlyniant cymunedol. Caiff pob cynnig datblygu ei asesu i sicrhau y bydd yn gwneud cyfraniad cadarnhaol at gryfhau hunaniaeth leol, cyflawni cymunedau cynaliadwy, annog ffordd fwy cynaliadwy o fyw a hyrwyddo ymgysylltiad a chydlyniant cymunedol.

**11. A yw'r CDLIN yn debygol o gael effaith ar ddefnyddio'r iaith Gymraeg yn y gymuned?**

**A yw'r CDLIN yn debygol o arwain at lai o ddefnydd o'r iaith Gymraeg yn y gymuned? Y rhesymau dros hyn: Mae siaradwyr Cymraeg yn llai o ganran, newid iaith mewn rhwydweithiau cymdeithasol penodol, diffyg darpariaeth gwasanaethau Cymraeg yng ngoleuni'r datblygiad, addysg, gofal plant ac ati.**

Annhebygol. Fel yr amlinellwyd uchod, rhagwelir na fydd strategaeth a pholisïau'r CDLIN yn arwain at lai o ddefnydd o'r iaith Gymraeg yn y gymuned.

**A yw’r CDLIN yn debygol o arwain at fwy o ddefnydd o'r iaith Gymraeg yn y gymuned?**

Tebygol. Mae strategaeth y CDLIN yn ceisio darparu swyddi a thai ychwanegol (gan gynnwys tai fforddiadwy) fel bod modd i bobl leol (gan gynnwys siaradwyr Cymraeg) barhau i fyw yn eu hardal leol. Polisïau creu lleoedd, trwy ganolbwyntio ar hunaniaeth leol, cydlyniant cymunedol a

rhwydweithiau cymdeithasol cryf. Mae'r polisïau hyn yn ei gwneud yn ofynnol i gynigion datblygu wneud cyfraniad cadarnhaol tuag at gryfhau hunaniaeth leol, cyflawni cymunedau cynaliadwy, annog ffordd fwy cynaliadwy o fyw, a hyrwyddo cydlyniant ac ymgysylltiad cymunedol. Mae polisi creu lleoedd penodol hefyd ar gyfer ardaloedd gwledig (PL/9), sy'n ei gwneud yn ofynnol i gynigion yn yr ardaloedd hyn daro cydbwysedd cynaliadwy rhwng diwallu anghenion economaidd, cymdeithasol, diwylliannol, amgylcheddol a hamdden cymunedau lleol ac ymwelwyr.

Ar gyfer ardaloedd gwledig, mae polisïau'r CDLIN hefyd yn ceisio amddiffyn cyfleusterau cymunedol mewn ardaloedd gwledig, sy'n allweddol wrth ddarparu cyfleoedd i breswylwyr lleol siarad a chlywed yr iaith. Nod polisïau cyflogaeth a thai gwledig yw cefnogi preswylwyr a busnesau lleol, gan ddarparu cyfleoedd i siaradwyr Cymraeg lleol aros neu symud yn ôl i'w cymunedau lleol. Bydd gwrthdroi'r dirywiad poblogaeth yr ydym wedi'i weld mewn rhai pentrefi yn ei dro yn arwain at gefnogi ysgolion lleol trwy'r potensial i deuluoedd fyw ac anfon eu plant i ysgolion yn lleol. Mae ysgolion yn gyfleuster cymunedol arall, lle gellir clywed a siarad y Gymraeg nid yn unig mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg, ond hefyd yn y gymuned ysgol ehangach.

Mae papur cefndir 66 yn nodi prinder darpariaeth cartrefi gofal mewn rhai ardaloedd gwledig. Nid yw'r CDLI mabwysiedig yn caniatáu datblygu cartrefi gofal newydd y tu allan i anheddiad mwy Llanrwst. Mae polisi newydd y CDLIN yn caniatáu iddynt yn y pentrefi mwy gefnogi anghenion preswylwyr lleol. Bydd hyn hefyd yn cefnogi'r iaith Gymraeg trwy ddarparu swyddi lleol a lleoedd gofal lle gellir darparu'r iaith Gymraeg yn haws.

Mae mesurau lliniaru ar gyfer safleoedd preswyl mwy yn cynnwys pecynnau ariannu ar gyfer gweithgareddau cyfrwng Cymraeg i'w darparu yn y gymuned leol, ar gyfer siaradwyr rhugl a dysgwyr.

## 3. Asesiadau polisi unigol

3.1 Mae'r adran hon yn asesu polisïau unigol y Cynllun Datblygu Lleol Newydd yn ôl y matrics canlynol. Mae hyn yn unol â'r sgorio awgrymedig a gynhwysir yn y Llawlyfr Cynlluniau Datblygu ar gyfer yr Asesiad Cynaliadwyedd / Asesiad

Amgylcheddol Strategol. Defnyddiwyd canlyniadau'r asesiad hwn i lywio'r ymatebion yn adran 2 uchod.

++ Effaith gadarnhaol iawn o'i gymharu â'r sefyllfa bresennol

\+ Effaith gadarnhaol o'i gymharu â'r sefyllfa bresennol

\+ / - Effeithiau cadarnhaol a negyddol o'i gymharu â'r sefyllfa bresennol

0 Effaith niwtral o'i gymharu â'r sefyllfa bresennol

\- Effaith negyddol o'i gymharu â'r sefyllfa bresennol

\- - Effaith negyddol iawn o'i gymharu â'r sefyllfa bresennol

? Effaith ansicr neu anhysbys

## Dewisiadau strategol a gofodol yng Nghonwy

| **Polisi - Fframwaith polisi creu lleoedd** | **Effaith debygol** |
|---|---|
| PL/1 creu lleoedd cynaliadwy | + |
| PL/2 strategaeth tai cynaliadwy | + |
| PL/3 strategaeth economaidd gynaliadwy | + |
| PL/4 dosbarthiad twf a hierarchaeth aneddiadau | ++ |
| PL/5 creu lleoedd a dylunio da | + |
| PL/6 hyrwyddo lleoedd iachach | + |
| PL/7 yr iaith Gymraeg | ++ |
| PL/8 rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy | + |
| PL/9 creu lleoedd mewn ardaloedd gwledig | ++ |
| PL/10 addasiadau gwledig | ++ |
| PL/11 Cynlluniau Creu Lleoedd a Chynlluniau Bro | ++ |
| PL/12 datblygiad, isadeiledd a rhwymedigaethau cynllunio newydd | ++ |
| PL/13 datblygiad newydd a hyfywedd | ++ |
| PL/14 rheoli ffurf anheddiad | + |
| PL/15 Ardal Wella'r Dwyrain | 0 |
| PL/16 creu lleoedd a safleoedd | + |
| PL/17 safle 157 Caeffynnon, Llanfairfechan - safle tai ac addysg defnydd cymysg | + |
| PL/18 safle 91, safle tai Pentywyn Road, Deganwy / Llanrhos | + |
| PL/19 safle 68, safle tai Fferm Peulwys, Hen Golwyn | + |
| PL/20 safle 56, safle tai Penloyn, Llanrwst | + |
| PL/21 safle 203, safle tai Queens Road, Llandudno | + |
| PL/22 safle 115, safle cyflogaeth ac ynni adnewyddadwy Chwarel Llanddulas | + |
| PL/23 safle 103, safle cyflogaeth Bryniau, Llandudno | + |

| Polisi - Fframwaith polisi creu lleoedd | Effaith debygol |
|---|---|
| PL/24 safle 206, safle tai Nant y Coed, Cyffordd Llandudno | + |
| PL/25 safle 132, safle tai Dinerth Road, Llandrillo-yn-Rhos | + |

## Lleoedd iach a chymdeithasol yng Nghonwy

| Polisi - Fframwaith tai a thai fforddiadwy | Effaith debygol |
|---|---|
| HS/1 fframwaith tai cynaliadwy | + |
| HS/2 cyflawni'r angen o ran tai | + |
| HS/3 darpariaeth tai fforddiadwy | + |
| HS/4 safleoedd a arweinir gan dai fforddiadwy | + |
| HS/5 safleoedd eithriedig tai fforddiadwy | + |
| HS/6 dwysedd tai | + |
| HS/7 cymysgedd tai | + |
| HS/8 cynlluniau anghenion tai lleol | ++ |
| HS/9 anheddau menter wledig | ++ |
| HS/10 ail gartrefi a llety gwyliau tymor byr | ++ |
| HS/11 amod meddiannaeth man preswylio parhaol C3 | ++ |
| HS/12 llety a rennir | + |
| HS/13 cartrefi gofal, cartrefi nyrsio, gofal ychwanegol, byw â chymorth a thai gwarchod | + |
| HS/14 datblygiad Sipsiwn, Roma a Theithwyr | 0 |
| HS/15 diwallu anghenion Sipsiwn, Roma a Theithwyr | 0 |

| Polisi - Strategaeth cludiant cynaliadwy a hygyrchedd | Effaith debygol |
|---|---|
| STA/1 cludiant cynaliadwy, hygyrchedd a datgarboneiddio | + |
| STA/2 cerbydau allyriadau isel iawn | 0 |
| STA/3 Lliniaru effaith teithio | 0 |
| STA/4 Llwybrau a chynlluniau cludiant | + |
| STA/5 Canolfannau nwyddau a gwastraff cyfunol | + |
| STA/6 teithio llesol ac isadeiledd gwyrdd | + |
| STA/7 Gwelliannau i gyfnewidfeydd a chyfleusterau cludiant cyhoeddus | + |
| STA/8 Safonau parcio | 0 |

| **Polisi - Canolfannau manwerthu a masnachol -** | **Effaith debygol** |
|---|---|
| RTC/1 manwerthu a chanol trefi yn gyntaf | + |
| RTC/2 hierarchaeth manwerthu | + |
| RTC/3 Prif Ardal Siopa | 0 |
| RTC/4 Parthau Siopa | 0 |
| RTC/5 parciau manwerthu a hamdden | 0 |
| RTC/6 dyluniad a diogelwch blaen siopau | 0 |
| RTC/7 datblygiad manwerthu newydd | + |

| **Polisi - Strategaeth cyfleusterau a gwasanaethau cymunedol** | **Effaith debygol** |
|---|---|
| CFS/1 cyfleusterau a gwasanaethau cymunedol | + |
| CFS/2 rhandiroedd newydd a phresennol | + |
| CFS/3 claddfeydd | 0 |
| CFS/4 cyfleusterau cymunedol newydd | + |
| CFS/5 colli cyfleusterau cymunedol | ++ |

| **Polisi - Strategaeth mannau hamdden** | **Effaith debygol** |
|---|---|
| RS/1 mannau hamdden | + |
| RS/2 datblygu a mannau hamdden | + |
| RS/3 diogelu mannau hamdden presennol | + |
| RS/4 mannau hamdden newydd | + |

## Lleoedd ffyniannus yng Nghonwy

| **Polisi - Strategaeth datblygu economaidd** | **Effaith debygol** |
|---|---|
| ED/1 datblygu economaidd | + |
| ED/2 dyraniadau cyflogaeth | + |
| ED/3 datblygiadau B1, B2 a B8 newydd ar safleoedd heb eu neilltuo. | + |
| ED/4 diogelu safleoedd swyddfa a diwydiannol B1, B2 a B8 | + |
| ED/5 ardaloedd gwella cyflogaeth swyddfeydd a diwydiannol | + |
| ED/6 arallgyfeirio ffermydd ac ehangu busnesau mewn ardaloedd gwledig | ++ |
| ED/7 telathrebu | + |
| ED/8 clystyrau busnes | 0 |

| **Polisi - Strategaeth twristiaeth** | **Effaith debygol** |
|---|---|
| TO/1 twristiaeth | + |
| TO/2 atyniadau hamdden a thwristiaeth cynaliadwy newydd | + |
| TO/3 Llety Gwyliau Llandudno | + |
| TO/4 safleoedd cabannau, carafanau sefydlog a charafanau teithiol | + |
| TO/5 llety gwyliau bach ei effaith | + |

| **Polisi - Fframwaith cynllunio sero net** | **Effaith debygol** |
|---|---|
| EN/1 fframwaith cynllunio sero net | 0 |
| EN/2 cyflawni sero net mewn datblygiadau newydd | 0 |
| EN/3 adeiladau ynni effeithlon | 0 |
| EN/4 ffynonellau ynni di-garbon neu garbon isel a thechnoleg di-garbon parod | 0 |
| EN/5 Allyriadau carbon heb eu rheoleiddio a charbon ymgorfforedig mewn adeiladau | 0 |
| EN/6 asesiad allyriadau nwyon tŷ gwydr ar gyfer datblygiadau newydd | 0 |
| EN/7 gwrthbwyso a dal a storio carbon | 0 |
| EN/8 cysylltu â'r grid a storio ynni | 0 |
| EN/9 cynhyrchu ynni'n lleol a'r cynllun ynni ardal leol | 0 |
| EN/10 grid clyfar a rhwydweithiau gwresogi ac oeri ardal | 0 |
| EN/11 datblygiad solar a gwynt ar y tir a rhwydweithiau gwresogi ac oeri ardal | 0 |
| EN/12 isadeiledd ar y tir sydd wedi'i gysylltu ag ynni adnewyddadwy ar y tir | 0 |

| **Polisi – Mwynau a Gwastraff** | **Effaith debygol** |
|---|---|
| MW/1 mwynau a gwastraff | 0 |
| MW/2 echdynnu mwynau | 0 |
| MW/3 diogelu creigiau caled ac adnoddau tywod a graean | 0 |
| MW/4 Parthau Clustogi Chwarel | 0 |
| MW/5 cynigion ar gyfer rheoli gwastraff | + |
| MW/6 defnydd o dir diwydiannol ar gyfer cyfleusterau rheoli gwastraff | 0 |
| MW/7 Parth Clustogi Tirlenwi | 0 |

### Lleoedd naturiol a diwylliannol yng Nghonwy

| **Polisi - Amgylchedd Naturiol** | **Effaith debygol** |
|---|---|
| NE/1 yr amgylchedd naturiol | + |
| NE/2 newid yn yr hinsawdd a gwytnwch ecosystemau | 0 |
| NE/3 tirluniau dynodedig | + |
| NE/4 diogelu Ardaloedd Tirwedd Arbennig | + |
| NE/5 Lletemau Glas | 0 |
| NE/6 coed, tirlunio a gwaith rheoli | 0 |
| NE/7 rhwydwaith isadeiledd gwyrdd | + |
| NE/8 bioamrywiaeth | + |
| NE/9 gwarchod a rheoli safleoedd dynodedig | + |
| NE/10 y Parth Arfordirol | + |
| NE/11 cynlluniau rheoli traethlin a newid arfordirol | + |
| NE/12 ardaloedd arfordirol a chynlluniau morol | + |

| **Polisi - Rhinweddau amgylcheddol** | **Effaith debygol** |
|---|---|
| EQ/1 rhinweddau amgylcheddol | + |
| EQ/2 cadwraeth dŵr a draenio cynaliadwy | 0 |
| EQ/3 ansawdd aer, seinwedd a rheoli golau | + |
| EQ/4 Awyr Dywyll a golau sensitif | + |
| EQ/5 rheoli perygl llifogydd a datblygiad | + |

| **Polisi - Yr amgylchedd hanesyddol** | **Effaith debygol** |
|---|---|
| HE/1 amgylchedd hanesyddol | ++ |
| HE/2 datblygiadau yn effeithio ar asedau hanesyddol | ++ |
| HE/3 Asedau Hanesyddol o Ddiddordeb Lleol Arbennig | ++ |
| HE/4 adfywio drwy ddiwylliant | ++ |

# 4. Mesurau lliniaru arfaethedig ar y safle

4.1 Mae canlyniadau'r asesiad uchod yn seiliedig ar y tybiaethau y bydd mesurau lliniaru yn cael eu darparu fel sy'n ofynnol gan bolisi PL/7, ac ar gyfer safleoedd a neilltuwyd. Nid yw'r rhestr yn un gyflawn a lle bo'n briodol, gellir sicrhau mesurau o'r fath trwy amod(au) cynllunio tra gellir sicrhau eraill yn fwy

priodol trwy rwymedigaethau cynllunio neu ymrwymiadau unochrog o dan Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, adran 106.

4.2 Ar gyfer safleoedd tai mae'r canlynol yn ofynnol:

- Cyflwyno nifer y tai i'w hadeiladu fesul cam gan ystyried taflwybr tai'r CDLIN.
- Darparu cymysgedd priodol o dai, gan gynnwys tai fforddiadwy ar gyfer angen lleol.
- Cytundebau i ddarparu ar gyfer pobl ar y cofrestrau tai fforddiadwy lleol.
- Darparu enwau strydoedd ac enwau datblygu Cymraeg, sy'n ystyried treftadaeth ieithyddol leol.
- Strategaethau marchnata a chyfathrebu dwyieithog, wedi'u targedu'n rhanbarthol (Conwy ac awdurdodau lleol cyfagos).
- Cefnogaeth i fentrau cyflogaeth a hyfforddiant sgiliau lleol yn ystod y gwaith adeiladu. Ar gyfer safleoedd mawr, mae hyn yn cynnwys lleoedd wedi'u hariannu mewn colegau lleol ar gyfer meysydd cyflogaeth cysylltiedig.
- Hysbysebion swyddi dwyieithog ar gyfer adeiladu'r safle, gan gynnwys y datganiad: anogir pobl leol i wneud cais.
- Hysbysebion / arwyddion adeiladu dwyieithog ar y safle.
- Cyfraniad ariannol tuag at leoedd Cylch Meithrin (pro rata).
- Cyllid ar gyfer gweithgareddau a digwyddiadau lleol yn y Gymraeg.

4.3 Ar gyfer safleoedd cyflogaeth (gan gynnwys manwerthu) mae angen y canlynol:

- Cefnogaeth i fentrau cyflogaeth a hyfforddiant sgiliau lleol. Ar gyfer safleoedd mawr, mae hyn yn cynnwys lleoedd wedi'u hariannu mewn colegau lleol ar gyfer meysydd cyflogaeth cysylltiedig.
- Hysbysebion swyddi dwyieithog ar gyfer y rolau ar y safle ac yn adeiladu'r safle, gan gynnwys y datganiad: anogir pobl leol i wneud cais.
- Darpariaeth ar gyfer arwyddion dwyieithog o fewn a thu allan i'r sefydliad, gyda thestun Cymraeg uwchben y Saesneg.
- Hysbysebion a/ neu ddeunyddiau hyrwyddo dwyieithog sy'n ymwneud â'r safle.

- Arddangos deunyddiau hyrwyddo ar gyfer gweithgareddau lleol yn y Gymraeg yn y gymuned ar y safle.

4.4 Ar gyfer safleoedd addysg mae angen y canlynol:

- Darpariaeth ar gyfer arwyddion dwyieithog o fewn a thu allan i'r sefydliad, gyda thestun Cymraeg uwchben y Saesneg.
- Hysbysebion a/ neu ddeunyddiau hyrwyddo dwyieithog sy'n ymwneud â'r safle.
- Hysbysebion swyddi dwyieithog ar gyfer y rolau ar y safle ac yn adeiladu'r safle, gan gynnwys y datganiad: anogir pobl leol i wneud cais.
- Cefnogaeth i fentrau cyflogaeth a hyfforddiant sgiliau lleol.
- Cefnogaeth a chyllid ar gyfer sefydlu iaith a gwersi iaith i staff e.e. cyrsiau byr wedi'u targedu sy'n gysylltiedig ag anghenion y cyflogwyr a'r gweithwyr/ unigolion.
- Cefnogi'r cyllid ar gyfer mentrau/ prosiectau diwylliannol ac iaith i annog defnyddio'r iaith o fewn cymunedau.
- Cefnogaeth i ddarparu lleoedd ysgol yn yr ysgol(ion) cyfrwng Cymraeg lleol.
- Cefnogaeth a chyllid ar gyfer cyrsiau ymwybyddiaeth iaith a diwylliannol.
- Cefnogi gweithgareddau iaith Gymraeg a gynhelir ar y safle, er enghraifft, Cylch Meithrin, Menter Iaith.
- Arddangos deunyddiau hyrwyddo ar gyfer gweithgareddau lleol yn y Gymraeg yn y gymuned ar y safle.